# Amserlen Diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Fil Ardrethu Annomestig (Rhestri)

Gorffennaf 2020

Ar 4 Mai 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Fil Ardrethu Annomestig (Rhestri), gyda'r dyddiad ar gyfer adrodd i’w gadarnhau.

Yn eu cyfarfod ar 1 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor Busnes y terfyn amser o 2 Gorffennaf ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Ar 6 Mai cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fydd ailbrisiad o ardrethi busnes yn digwydd bellach yn 2021, ac na fydd y Bil yn dod i rym felly am gyfnod amhenodol.

Methodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol â nodi un ddarpariaeth lle mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd, felly gosododd Llywodaraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig. Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig hwn at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a’r Pwyllgor Deddwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, ond o dan yr amgylchiadau, penderfynodd beidio â gosod dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565